

Cyngor i Rieni

Ar gyfer mynediad yn mis Medi 2017

Byd arall
...hafan hapus



GORAU
YNG NGHYMRU
A RHIF 4 YN Y DU

★★★★ACM 2016★★★★

AM FODLONRWYDD
MYFYRWYR

Byd arall... croeso cynnes i chi

Mae Prifysgol Aberystwyth yn brifysgol groesawgar a chyfeillgar ac rydym yn ymfalchïo yn y nodweddion hyn. Mae perthynas pobl gyda'i gilydd yn bwysig i ni, ac mae yna berthynas glôs rhwng ein staff a'n myfyrwyr - rydym yn ymdrechu'n fawr i ofalu am les ein myfyrwyr. Maent yn cwrdd ar achlysuron cymdeithasol a diwylliannol yn ogystal ag yn y ddarlithfa ac mewn grwpiau seminar. Rhwng y sylw unigol a'r gefnogaeth gyson mae'n myfyrwyr yn ei dderbyn, ac awyrgylch ddiogel y dref a'r Brifysgol, gallwch fod yn sicr byddwn yn gofalu am eich mab/merch yn ystod eu hamser yma yn y Brifysgol.

Gyda mwy na 140 mlynedd o brofiad mewn dysgu ac ymchwil, cafwyd canlyniadau da yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014, ble mae 95% o'n hymchwili o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu'n uwch. Dyfarnwyd mae Prifysgol Aberystwyth yw'r gorau yng Nghymru, ac un o'r deg uchaf o blith

holl sefydliadau addysg uwch y DU ar gyfer boddhad myfyrwyr, yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr 2016. Roedd 92% o'n myfyrwyr wedi dweud eu bod yn fodlon. Dengys y canlyniadau bod boddhad cyffredinol ymhlith myfyrwyr yn Aberystwyth yn 92%.

Mae Prifysgol Aberystwyth hefyd ymhlith y 50 prifysgol orau yn y DU am "y graddedigion gorau ar gyfer y gweithle" yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan y Times Higher Education (THE), ac mae dros 92% o'n graddedigion mewn gwaith ac/neu addysg bellach o fewn 6 mis wedi graddio.

Mae Aberystwyth yn cynnig pecyn hael o ysgoloriaethau, bwsariaethau a gwobrau, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf yr ydym wedi buddsoddi cryn dipyn mewn llety i fyfyrwyr. Gan hynny, gallwn warantu lle mewn llety'r Brifysgol i

bob glasfyfyrwr a ddaw yma. Am bris rhesymol, caiff pob myfyrwr newydd yn Aberystwyth brofiad mewn llety o safon uchel sy'n hybu astudio ac yn arwain at lwyddiant.

Os bydd gennych gwestiynau i'w gofyn i ni ar ôl i chi ddarllen y llyfryn hwn, da chi cysylltwch â ni. Mae manylion yng nghefn y llyfryn.



Yr Athro John Grattan
Is-Ganghellor Dros Dro

Cynnwys

Helpu eich mab/merch i ddewis pwnc.....	2
Helpu eich mab/merch i ddewis cwrs.....	5
Byd arall...hafan ddiogel.....	6
Sut i ymgeisio, cam-wrth-gam.....	8
Ymweld â ni.....	12
Ffioedd dysgu a chefnogaeth ariannol.....	13
Arbedion ychwanegol.....	14
Llety.....	16
Sut i baratoi eich mab/merch ar gyfer prifysgol.....	20
Cynefin newydd.....	22
Yn cefnogi eich mab/merch.....	24
Bywyd myfyrwr.....	26
Dyddiadau'r tymhorau.....	28
Cysylltwch â ni.....	29



**Aberystwyth yw'r brifysgol
mwyaf diogel yng Nghymru, ac
un o'r 10 lle mwyaf diogel i fod yn
fyfyrwr yn y DU,
yn ôl y Complete
University Guide 2015**



Helpu eich mab/merch i ddewis pwnc

Gan fod yna amrywiaeth mor eang, mae dewis pa bwnc a chwrs i'w hastudio yn un o'r penderfyniadau anoddaf mae'n debyg sy'n wynebu myfyrwyr heddiw. Dyma ychydig o wybodaeth i chi am yr amrywiaeth a'r dulliau astudio sydd ar gael yn Aberystwyth, i'ch helpu chi a'ch mab/merch i ddewis y pwnc sy'n iawn iddo fe neu hi.

Efallai bod eich mab/merch yn gwybod yn barod beth y mae am ei wneud, ac wedi cynllunio gyrfa eisoes, ond nid yw nifer o fyfyrwyr yn gwybod hyd yn hyn beth y maen nhw eisiau'i wneud yn y dyfodol. Os mai hyn sy'n wir, gwnewch yn siwr y bydd eich mab/merch yn mwynhau eu cyfnod yn y brifysgol, a bod ganddynt ddiddordeb gwirioneddol yn y cynllun y maent yn ystyried ei astudio. Fe wnânt yn well ar gwrs y maent yn ei fwynhau, a gallant eu hysgogi ei hunain llawer yn haws. Mae'r sgiliau sy'n cael eu meithrin yn ystod eu hastudiaethau yn rhai sy'n bwysig yng ngolwg cyflogwyr, ac mewn llawer o swyddi nawr mae'r sgiliau sy'n cael eu hennill yn y brifysgol yn aml yn cael eu hystyried yr un mor werthfawr â phwnc y radd.

Mae Amaethyddiaeth, Daearyddiaeth a Gwleidyddiaeth yn Aberystwyth ymhlith y 150 prifysgol orau yn y byd am safon dysgu, yn ôl y QS World University Rankings 2015



Pynciau

Yn Aberystwyth rydym yn cynnig amrywiaeth rhyfeddol o gyrsiâu i'n myfyrwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau sy'n uniongyrchol alwedigaethol a chyrsiâu mwy academiaidd, a gellir eu hastudio mewn sawl cyfuniad gwahanol. Mae ein prif feysydd yn cynnwys...

Cyfrifeg, Cyllid, Economeg, Marchnata, Busnes a Rheolaeth; Celfyddyd Gain a Hanes Celf; Gwyddorau Biolegol; Cyfrifiadureg; Drama, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu; Addysg ac Astudiaethau Plentynod; Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol; Gwyddorau Amgylcheddol; Ieithoedd Ewropeaidd; Daearyddiaeth a Gwyddorau Daearyddiaeth; Hanes a Hanes Cymru; Gwleidyddiaeth Ryngwladol; Y Gyfraith; Troseddeg; Mathemateg; Ffiseg; Seicoleg; Gwyddorau Gwledig; Biowyddorau Milfeddygol; Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff; Cymraeg, Cymraeg Proffesiynol, Gwyddeleg ac Astudiaethau Celtaidd.

Mae pob un o'n cyrsiau yn paratoi ein myfyrwyr am ystod eang o yrfaoedd gan eu bod i gyd yn darparu sgiliau a medrau defnyddiol a hanfodol sy'n werthfawr ym myd gwaith. Felly, er enghraifft,

bydd gan fyfyrwr sy'n graddio mewn Hanes ystod o wybodaeth benodol i'r pwnc hwnnw, ond fe fydd hefyd yn gallu dysgu ac addasu gwybodaeth mewn dull trefnus strwythuredig er mwyn cyflwyno achos yn glir ac adeiladol. Mae ein myfyrwyr nid yn unig yn dysgu i weithio ar eu pen eu hunain, ond hefyd yn datblygu sgiliau gwaith tîm, sydd o'r pwysigrwydd mwyaf yn eu gyrfaedd ar ôl hynny. Byddant yn meithrin sgiliau rheoli amser, meddwl yn feirniadol, ysgrifennu ac ymchwilio.

Dull astudio

Ar ôl i'ch mab/merch ddewis pa bwnc i'w astudio, mae angen iddynt benderfynu ar y dull astudio. Mae cynlluniau anrhydedd sengl yn canolbwyntio ar astudio un prif bwnc mewn dyfnder, ac mae cynlluniau anrhydedd cyfun yn caniatáu i fyfyrwyr gyfuno dau bwnc, a'u hastudio i'r un graddau. Mae cynlluniau prif bwnc/is-bwnc ar gael hefyd mewn rhai cyfuniadau, sy'n caniatáu i fyfyrwyr astudio un pwnc am ddwy ran o dair o'u hamser, a'r is-bwnc am draean o'u cyfnod. I gael rhestr gyflawn o gyrsiâu a'r cyfuniadau posibl ewch i'n gwefan:

www.aber.ac.uk/cy/undergrad/course-finder



Barnwyd pedwar o'n meysydd pwnc y gorau yn y DU – Gwyddor Anifeiliaid, Gwyddor Daearyddiaeth Amgylcheddol, Ffrangeg ac Astudiaethau Celtaidd Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2016



Mae **100%** o'n myfyrwyr yn fodlon gyda'u cyrsiau ym meysydd pwnc Celfyddyd Gain, Gwyddor Daearyddiaeth, Gwyddor Ffisegol, Gwyddor Anifeiliaid, Cadwraeth Cefn Gwlad, Cyllid a Chyfrifeg, Gwyddor Planhigion, Gwleidyddiaeth Ryngwladol a'r Byd An-Orllewinol, ac Astroffiseg. Cafodd Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, a'n Ysgol Gelf hefyd sgôr o 100% am fodlonrwydd eu myfyrwyr. Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr 2016

Mae Aberystwyth mewn lleoliad sy'n berffaith ar gyfer astudio daearyddiaeth, a chysiau cefn gwlad ac amgylcheddol. Nepell o Aberystwyth ceir mynyddoedd, y môr, aberoedd, coedwigoedd, twynni tywod a gorsdiroedd.

Dewis y CWRS cywir...

Gwnewch yn siwr fod gan eich mab neu eich merch ddigon o amser a gwybodaeth er mwyn gallu penderfynu ar y pwnc/modiwlau priodol i'w astudio. Edrychwch ar eu hoff brifysgolion â manylder.

- Anogwch eich mab/merch i feddl am y pynciau y mae ef/hi yn mwynhau eu hastudio, a thrafod eu cryfderau gyda chi, eu ffrindiau a'u hathrawon. Mae'n bwysig eu bod yn dewis cwrs y byddant yn mwynhau ei astudio, yn ogystal ag un a fydd o fewn eu gallu
- Gwnewch yn siŵr bod eich mab/merch yn dewis cwrs sydd o fewn eu cyrraedd o ran eu cymwysterau. Does dim diben iddynt freuddwydio am gyrsiau gwyh os nad ydynt yn meddl i cânt ddigon o bwyntiau i fod yn gymwys i'w hastudio
- Ydy eich mab/merch yn gwybod beth yr hoffent ei wneud ar ôl graddio? Ydyn nhw'n gwybod pa swydd yr hoffent ei wneud, a pha gymwysterau fydd eu hangen arnynt i wneud cais am swydd o'r fath? Mae rhai pynciau yn bynciau arbenigol, ac nid ydynt eisiau treulio tair blynedd neu fwy'n astudio ar gyfer pwnc a fydd yn cyfyngu eu dewis o yrfa.

Unwaith y bydd eich mab/merch yn gwybod pa bwnc yr hoffent ei astudio, bydd angen iddynt ystyried **ble y mae modd astudio'r pwnc...**

I weld pa brifysgolion sy'n cynnig y cyrsiau sydd o ddiddordeb i'ch mab/merch, ewch i wefan UCAS sydd ag adnodd chwiliwr cyrsiau sy'n rhestru'r holl gyrsiau sydd ar gael ledled Prydain (wwwucas.com). Mae gwefan Unistats hefyd yn cynnig chwiliwr pynciau (<http://unistats.direct.gov.uk>).

Unwaith y bydd ganddynt restr fer o leoedd, bydd gwneud rhai o'r pethau canlynol o fudd mawr, wrth i'ch mab/merch geisio cyfyngu'r rhestr i bum dewis:

- **Edrychwch ar wefannau'r prifysgolion a'u prosiectysau.** Dylech ofyn am brosiectws gan bob prifysgol ar y rhestr, efallai y bydd ganddynt hefyd brosiectysau amgen wedi'u paratoi gan fyfyrwyr presennol neu ddiweddar a llyfrynau ar bynciau penodol.
- **Ewch i weld y prifysgolion sydd o ddiddordeb i'ch mab/merch.** Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnal Diwrnodau Agored, a dylai manylion am y rhain fod ar eu gwefannau ac yn eu prosiectysau. Ar Ddiwrnodau Agored cewch gyfle i siarad â rhai o'r myfyrwyr sydd yno'n barod.
- **Edrychwch ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.** Mae gan y rhan fwyaf o brifysgolion dudalennau ar Facebook a gwefannau cymdeithasol eraill. Weithiau mae nhw hefyd yn rhoi cyfle i chi gysylltu â myfyrwyr presennol yn uniongyrchol.
- **Ymchwiliwch i'r ysgoloriaethau a'r bwrsariaethau sydd ar gael.** Bydd llawer o brifysgolion yn cynnig amryw o ffynonellau ariannol i helpu eich mab/merch drwy eu hastudiaethau. Mae'r ysgoloriaethau a'r bwrsariaethau fel rheol yn arian sy'n ychwanegol at y benthyciad, ac fel rheol nid oes raid talu'r arian yn ôl. Mae'n werth edrych i weld beth sydd ganddynt i'w gynnig, gan fod unrhyw gefnogaeth ychwanegol yn siŵr o fod o gymorth mawr.

Byd arall

...hafan ddiogel

Dewch i fydd arall yn Aberystwyth, lle mae ein dysgu ysbrydoledig, ein hymchwil rhagorol, a'n cymorth dibynadwy yn cyfuno i'ch paratoi ar gyfer eich dyfodol, ac i'ch helpu i wneud y gorau o'ch buddsoddiad.

Ein myfyrwyr sydd wrth galon popeth a wnawn. Rydym yn gweithio gyda nhw i'w helpu i wireddu eu potensial yn eu maes dewisol. Gall hyn fod yn seiliedig ar waith, ymchwil neu astudiaethau pellach. Gobeithiwn mai dyma'r amgylchedd yr ydych eisiau bod yn rhan ohono.

Ni yw'r brifysgol fwyaf diogel yng Nghymru ac rydym ymhlith y 10 prifysgol fwyaf diogel yn y DG, yn ôl y *Complete University Guide 2015*. Felly gallwch fod yn dawl eich meddwl bod eich mab/merch yn cael eu cefnogi'n dda ac yn teimlo'n gartrefol yma yn Aberystwyth, yn wir mae nifer o'n myfyrwyr yn aros am flynyddoedd ar ôl graddio.



Mae ein cymuned glos yn bluen yn ein het. Mae perthynas unigryw rhwng y myfyrwyr ac mae ein staff a phobl Aberystwyth hefyd yn groesawgar a chyfeillgar iawn. Yn wir cafodd Aberystwyth ei choroni'n "Dref Orau" yng Ngwobrau Academi Trefoli 2015.

Dysgu Ysbrydoledig

Yn Aberystwyth caiff eich mab/merch ei ddysgu gan rai o'r arbenigwyr mwyaf blaenllaw yn eu maes. Mae hyn yn golygu y byddant yn gyfarwydd â rhai o ddamcaniaethau ac ymchwil diweddaraf y byd hyd yn oed cyn eu bod yn hysbys i'r byd ehangach. Yn wir, dengys canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr 2016 bod boddhad cyffredinol ymhlith myfyrwyr yn Aberystwyth yn 92%.

I ategu ansawdd uchel ein dysgu, mae gennym broses drylwyr ar gyfer arolygu, cefnogi, hyfforddi a datblygu proffesiynol parhaus a fydd yn helpu eich mab/merch i gyflawni eu potensial ac i fod yn barod am y gyrfa maent ei heisiau. Mae ein Gwasanaeth Gyrfaoedd yn gweithio'n agos gyda'r adrannau i ddarparu cyflwyniadau a gweithgareddau



ychwanegol, i alluogi eich mab/merch i ddatblygu sgiliau y mae galw mawr amdanynt gan gyflogwyr. Bydd ystod o gyfleoedd allgyrsiol hefyd ar gael iddynt, gan gynnwys darlithoedd gwadd, teithiau maes, profiad gwaith yn y DU neu dramor, cyfleoedd i astudio neu wirfoddoli dramor, a gweithdai o bob math - a fydd oll yn rhoi profiad gwerthfawr i chi, yn gwellach CV a'ch profiad fel myfyriwr.

Ymchwil Rhagorol

Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 dyfarnwyd bod 95% o'n hymchwil yn cyrraedd safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu'n uwch, ac mae Aberystwyth ymhlith y 50 sefydliad blaenaf yn y DU ar gyfer grym a dwysedd ymchwil.

Mae ein gwyddonwyr yn arbenigwyr yn eu meysydd; dyma rai o'n uchafbwyntiau ymchwil diweddar:

- chwaraeodd ein gwyddonwyr gofod ran bwysig yn narganfyddiad gweddillion y Glaniwr Beagle 2 ar y blaned Mawrth
- gosodwyd y Brifysgol ar y rhestr fer yng Ngwobrau Effaith RCUK/PraxisUnico 2015 i bobl broffesiynol sy'n gweithio ym maes Cyfnewid Gwybodaeth a Masnacheiddio, am ei "defnydd teg a chyfiawn o adnoddau genetig *Miscanthus* (hesg eliffant) yn y sector ynni drwy gytundeb rhyngwladol a dylanwad ar lunio polisiau yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd."
- mae staff Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yn chwarae rhan allweddol mewn prosiect gwerth £1.8 miliwn i ddatblygu'r dechnoleg angenrheidiol i blannu'r cnwd ynni *Miscanthus* o hadau, i gynhyrchu tanwydd gwyrdd yn gyflymach. Bydd y tîm yn ymchwilio sut i greu'r amodau gorau ar



gyfer cynhyrchu hadau, gan dreialu nifer o fathau newydd er mwyn archwilio'u cynnyrch a'u haddasrwydd ar gyfer amodau'r Deyrnas Unedig.

- o dan arweiniad ffisegydd o Aberystwyth, mae grŵp rhyngwladol o ymchwilwyr wedi darganfod dull newydd o gynhyrchu gwydr. Gallai'r darganfyddiad arwain at gynhyrchu gwydrau pwrpasol a allai gael eu defnyddio mewn ffotoneg uwch, yn ogystal â hwylyso dal a storio carbon ar raddfa ddiwydiannol.
- traddododd Pennaeth Adran y Gyfraith a Throsedddeg ddarlith yng Nghyngres Flynyddol Geriatreg a Gerontoleg y Byd, gyda'i brif bapur yn trafod yr her fydeang a ddaw yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio.

Cymorth Dibynadwy

Mae ein llyfrgelloedd bellach ar agor 24 awr y dydd yn ystod y tymor, ac mae ein Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr cyfeillgar a chroesawgar yn cynnig cymorth o bob math, gan ddarparu gwybodaeth a chynghor ar faterion ariannol, addysgol, academiaidd ac emosiynol.

Mae ein lolfeydd cymunedol yn neuaddau preswyl Rosser, Pentre Jane Morgan a Fferm Penglais yn cynnig mannau i'n myfyrwyr gymdeithasu a gweithio gyda'i gilydd mewn awyrgylch llai ffurfiol, a chynorthwyo ei gilydd ymhellach mewn ffordd hwylus, ac yn cynnig lle iddynt weithio gyda chydweithwyr eraill mewn lleoliad gwahanol.



Mae'r ganolfan gymunedol newydd yn llety Fferm Penglais ar agor 24/7 at ddefnydd y myfyrwyr. Mae'n cynnwys cyfleusterau golchi dillad, storfa feiciau dan do, ystafelloedd cyfarfod ac ardal gymdeithasol sy'n cynnwys cysylltiad di-wifr i'r rhyngwrwyd ac adnoddau argraffu. Mae'r ganolfan hefyd yn cynnwys lloffa/caffi'r SGUBORfach, sy'n cynnig byrbrydau amrywiol a diodydd poeth ac oer yn ystod y tymor.

Sut i ymgeisio am le yn y brifysgol, cam-wrth-gam

Dyddiadau allweddol ar gyfer mynediad yn 2017

Dechrau mis Medi 2016

UCAS yn agor i dderbyn ceisiadau ar gyfer mynediad yn 2017.

15 Ionawr 2017

Dyddiad cau gwneud cais drwy UCAS. Yn Aberystwyth rydym yn hapus i dderbyn cynigion ar ôl y dyddiad hwn, ac rydym yn trin pob cais yn unigol.

18 Ionawr

Dyddiad cau ymgeisio am Ysgoloriaeth Mynediad Prifysgol Aberystwyth.

31 Ionawr

Arholiadau'r Ysgoloriaeth Mynediad.

Ebrill (ac ymlaen)

Ceisiadau ar-lein ar gyfer llety yn agor ar gyfer myfyrwyr sydd ag Aberystwyth fel DC, DWG, AC neu AWG.

30 Mehefin

Gwnewch Aberystwyth yn Ddewis Cadarn erbyn y dyddiad hwn i fod yn gymwys am Fwrsariaeth Breswyl. Bydd y rheiny sy'n anfon ceisiadau UCAS ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu rhoi yn y broses Glirio.

17 Awst

Diwrnod canlyniadau Lefel A.

20 Medi

Dyddiad cau terfynol ar gyfer ceisiadau i gyrsiau 2017.

Cychwyn

Ymgeisiwch drwy
UCAS.com.
Cod sefydliad Prifysgol
Aberystwyth: A40

Awgrym bach: Bydd eich mab/merch yn cael rhif adnabod UCAS sy'n 10 rhif. Cadwch hwn wrth law gan y bydd ei angen arnoch ar gyfer sawl peth

Y brifysgol sy'n
penderfynu a fydd
hi'n cynnig lle i'ch
mab/merch ai peidio

Bydd y cynnig
yn ymddangos ar
UCAS Track

Awgrym bach:
Gallwch ddilyn hynt y cais drwy UCAS Track. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio dod i benderfyniad o fewn 4 wythnos

Diwrnod canlyniadau
Bydd UCAS track yn dangos
cadarnhad o gynnig eich mab/
merch o le. Os ydynt yn ansicr
ynghylch eu lle, cysylltwch â'r
brifysgol yn uniongyrchol

Bydd yr haf yn gyfnod
tyngedfennol. Gwnewch yn
siwr nad yw eich gwyliau
yn cyd-daro â chyfnod
canlyniadau'r arholiadau

**Llongyfarchiadau, mae eich mab/
merch wedi gorffen y broses
gwneud cais i'r brifysgol! Nawr
gwnewch yn siwr eu bod wedi gwneud
cais am lety, a dechreuwch eu paratoi
at eu profiad prifysgol
(gweler tudalen 20)!**

Diwedd

Llety

Unwaith mae eich mab/merch
wedi ein dewis fel eu dewis
cadarn/wrth gefn byddant
yn gallu gwneud cais am le
yn ein llety
(o'r 1af Ebrill ymlaen)

Ar ôl i'r holl gynigion gyrraedd,
bydd yn rhaid i'ch mab/merch ateb
o fewn amser penodol a nodi pa
brifysgol fydd eu dewis cadarn a
pha un fydd eu dewis
wrth gefn

Os nad yw eich mab/merch wedi cael y
canlyniadau yr oeddynt yn gobeithio'u
cael, efallai y bydd ymuno â'r drefn 'Clirio'
o fudd (gweler tudalen 10)

Trefn ystyried ceisiadau

O'n hochr ni, yr ystyriaeth bennaf yw penderfynu a fydd yr ymgeisydd yn debygol o elwa o gyfnod o astudiaeth academiaidd. Nid yw tras, cenedl, crefydd na chred yn cael eu hystyried wrth benderfynu derbyn neu wrthod cais.

Daw'r ceisiadau o UCAS i'r Swyddfa Dderbyn Israddedigion. Cânt eu hanfon ymlaen at diwtor cwrs y pwnc priodol sydd yn gwneud y penderfyniad.

Mewn ambell achos, er enghraifft cynllun anrhydedd cyfun Saesneg a Hanes, anfonir y ffurflen gais i diwtoriaid yn y ddwy adran. Bwriad y Brifysgol yw i ymateb i geisiadau o fewn 4 wythnos, fel na fydd rhaid i'ch mab neu'ch merch aros yn hir i gael gwybod am ein penderfyniad. Mae hon yn broses bryderus ar y gorau heb orfod aros amser maith am ateb, felly rydym yn cadw golwg ar y broses er mwyn osgoi oedi.

Swyddfa Derbyn Israddedigion:

Adeilad Cledwyn
Campws Penglais
Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth, SY23 3DD
Ffôn: 01970 622021
E-bost: derbyn-israddedig@aber.ac.uk

Amodau'r cynnig

Os bydd eich mab neu'ch merch yn llwyddo i gael y graddau priodol yn yr arholiadau, bydd ef neu hi wedi cyflawni telerau'r cynnig a byddwn yn barod i'w dderbyn/derbyn yn fyfyrwr. Rydym yn ceisio sicrhau y bydd myfyrwyr sydd wedi ymrwmo i Aberystwyth trwy wneud cais yn llwyddo i gael lle ar y cwrs o'u dewis, neu ar gwrs arall os ydyn nhw wedi methu â chwrrd ag union delerau'r cynnig. Er hynny, dim ond os bydd union delerau'r cynnig yn cael eu cyflawni'n llawn y gallwn warantu eich lle yn y Brifysgol. Mae ein hyblygrwydd ar gyfer canlyniadau sy'n 'go agos' wedi ei gyfyngu, ac mae'n amrywio o bwnc i bwnc. Os oes gennych unrhyw amheuan ar ôl gweld y canlyniadau, cofiwch gysylltu â ni. Mae ein llinell gymorth ar agor drwy'r haf, a dyna yw diben y gwasanaeth hwnnw – bod o gymorth i chi.

Clirio ac Addasu

Os nad yw eich mab/merch wedi cael y canlyniadau yr oeddynt yn gobeithio eu cael, neu yn wir os gwnaethant yn llawer gwell na'r disgwyl ac nad ydynt yn fodlon ar eu dewis o brifysgol, gallai ymuno â'r broses Glirio ac Addasu fod yn syniad da. Ar y diwrnod canlyniadau, mae prifysgolion ledled y wlad yn cynnig mynediad trwy Clirio gyda'r bwriad o baru myfyrwyr gyda'r cyrsiau sydd ar gael.

Sut mae'r broses Clirio'n gweithio

Bydd eich mab/merch yn myned y system glirio'n awtomatig, os ydynt wedi eu cofrestru ar y system UCAS ac oes nad ganddynt unrhyw gynigion arall. Mae gan UCAS restr o'r cyrsiau sydd ar gael drwy'r broses hon, ac mae gwefannau eraill yn dangos pa gyrsiau sydd ar gael, er bod hyn yn newid yn gyson. Yn Aberystwyth mae gennym Linell Ffôn Clirio sydd ar agor am oriau estynedig.

Mae Addasu ychydig yn wahanol i Clirio. Mae hwn ar gyfer myfyrwyr sydd eisoes wedi bod drwy'r broses ymgeisio ond wedi cael gwell graddau na'r disgwyl, ac mae'n gyfle i newid i brifysgol arall sy'n cynnig lleoedd drwy'r system Addasu. Y ffordd gyflymaf i wneud hyn yw cysylltu â phrifysgolion trwy eu llinellau ffôn Clirio, a hynny cyn gynted â phosibl.

Cofiwch y gallwch gysylltu â'r prifysgolion cyn i'ch mab/merch gael ei rhyddhau yn swyddogol i ymuno la'r broses Glirio. Gallech drafod a chael gwybod beth yw'r opsiynau, cyn rhoi trefn ar y gwaith papur. Mae llefydd yn llenwi'n gyflym ar y diwrnod canlyniadau, felly mae'n werth trafod y broses hon gyda'ch mab/merch cyn y diwrnod canlyniadau, hyd yn oed os yw ond i'w cael i feddwl am unrhyw le arall y byddai ganddynt ddiddordeb ynddo, er mwyn iddynt fedru ffonio'r brifysgol honno yn gyntaf.

Egluro rhai termau...

Cynnig Amodol	Mae'n amlinellu'r amodau y bydd prifysgol yn ystyried derbyn eich mab/merch, e.e. cael B yn Safon Uwch.
Cynnig Diamod	Cynnig pendant o le mewn prifysgol, o ganlyniad i gymwysterau y mae gan eich mab/merch yn barod.
D/C	Cynnig Diamod Cadarn. Lle pendant yn y brifysgol y mae eich mab/merch eisoes wedi dangos diddordeb pendant ynddi.
D/WG	Cynnig Diamod Wrth Gefn. Lle pendant mewn prifysgol arall neu ar gwrs arall, yn aml â chymwysterau is. Os na fydd eich mab/merch yn llwyddo i gael y pwyntiau ar gyfer y cynnig D/C, byddant yn cael cynnig lle yn awtomatig yn y brifysgol/cwrs sy'n ddewis wrth gefn.
A/C	Cynnig Amodol Cadarn. Cynnig cadarn am le mewn prifysgol, cyn belled â bod amodau'r cynnig yn cael eu bodloni.
A/WG	Cynnig Amodol Wrth Gefn. Dyma eich lle wrth gefn mewn prifysgol, yn dibynnu ar fodloni amodau'r cynnig. Os nad yw eich mab/merch yn gallu bodloni amodau cynnig A/C, byddant yn cael cynnig lle yn awtomatig yn y brifysgol/cwrs sy'n ddewis wrth gefn, ar yr amod eu bod wedi bodloni amodau'r cynnig hwn.
Rhif adnabod UCAS	Pan fyddwch yn gwneud cais am le mewn prifysgol drwy UCAS ar gychwyn cyntaf y broses, byddwch yn cael rhif adnabod UCAS – mae 10 digid i hwn ac mae'n unigryw i chi. Cadwch y rhif hwn wrth law gan y byddwch ei angen sawl gwaith yn ystod y broses ymgeisio, ac yn enwedig os ydych yn ymuno â'r broses Glirio neu Addasu.
UCAS Track	Ar ôl i chi gofrestru a chwblhau eich cais ar-lein trwy UCAS, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, gweld ac ymateb i gynigion, ac ychwanegu dewisiadau clirio drwy UCAS Track.
Mynediad wedi'i ohirio	Os byddwch yn cwblhau'r broses o wneud cais i brifysgol ac wedi cael eich derbyn ar gwrs, ac yna eich bod yn penderfynu nad ydych eisïau dechrau ym mis Medi, gallwch ohirio (defer) eich cwrs am flwyddyn. Gallech wneud hyn i gael blwyddyn allan neu brofiad gwaith, er enghraifft.



Ymweld â ni

Mae dewis prifysgol yn benderfyniad a fydd yn newid eich bywyd. Byddwch chi a'ch mab/merch yn buddsoddi llawer iawn i astudio yn y brifysgol ac rydym yn deall eich bod angen gwybod bod eich mab/merch yn hapus gyda'u dewis, ac y byddant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth. Ymweld â ni yw un o'r ffyrdd gorau o ddarganfod dros eich hun beth sydd gan Brifysgol Aberystwyth i'w gynnig...

Diwrnodau Agored

Yn ystod y flwyddyn, rydym yn cynnal sawl prif Ddiwrnod Agored, lle gallwch ymweld ag unrhyw ran o'r Brifysgol, gan gynnwys:

- edrych ar ein llety
- ymweld â'r adrannau
- cerdded o amgylch ein campws a'n cyfleusterau
- dysgu am ein bwsariaethau a'n hysgoloriaethau
- siarad â'n myfyrwyr presennol a'n staff
- dysgu sut y bydd astudio yn Aberystwyth yn gwella cyflogadwydd eich mab/merch

Am ragor o wybodaeth ac i gadw eich lle ar un o'n Diwrnodau Agored, ewch at www.aber.ac.uk/diwrnodagored, neu cysylltwch â ni: 01970 622065 neu diwrnodagored@aber.ac.uk

Diwrnodau Ymweld

Dydyn ni ddim fel arfer yn mynnu bod ymgeiswyr yn dod i Aberystwyth am gyfweiliad academaidd ffurfiol. Ond wrth wneud cynnig, rydym yn eu gwahodd yma ar un o'n Diwrnodau Ymweld sy'n gyfle gwyb i weld y Brifysgol, i gwrdd â staff a myfyrwyr, ac i weld yr amrywiaeth eang o adnoddau llety sydd ar gael. Cewch ateb i unrhyw gwestiwn sydd gennych chi a'ch mab/merch, ac mewn rhai achosion gallwn gynnig lle ar ofynion mynediad llai na'r rhai gyhoeddwyd. Rydym yn barod i gyfrannu tuag at y costau teithio bydd yn deillio o'ch taith i'r Diwrnod Ymweld.

Digwyddiadau adrannol

Mae ein hadrannau yn aml yn cynnal digwyddiadau pan fyddant yn gwahodd ysgolion a grwpiau i mewn i'r adran, neu'n cynnal digwyddiadau penodol sy'n ymwneud â'u gwaith. Cysylltwch â'r adran y mae gennych ddiddordeb ynddi yn uniongyrchol i weld pa ddigwyddiadau y gallant fod yn eu trefnu.

Digwyddiadau yn eich ardal

Mae'n Tim Cyswllt Ysgolion a Cholegau yn ymwneud â chynghori myfyrwyr, athrawon a staff gyrfaoedd, yn ogystal â rhieni, ar bob agwedd ar ymgeisio ar gyfer addysg uwch. Mae'r tim yn teithio'n helaeth ledled y DU gan gynnig amrywiaeth o wasanaethau AM DDIM i ysgolion a cholegau, gan gynnwys:

- Cyngor a chyfarwyddyd annibynnol ar bob agwedd ar addysg uwch
- Ystod eang o gyflwyniadau (e.e. ymchwilio ac ymgeisio i brifysgol, cyllid myfyrwyr a bywyd myfyrwyr, astudio drwy gyfrwng y Gymraeg)
- Sesiynau cyfweiliadau ffug
- Mynychu digwyddiadau gyrfaoedd ysgolion a chynadleddau cenedlaethol UCAS
- Sgyrsiau pwnc gan adrannau academaidd y Brifysgol

Os hoffech i ni ddod i'ch ysgol/coleg gofynnwch i'r sefydliad gysylltu â ni: www.aber.ac.uk/cy/schools, 01970 622065, neu ebostiwch: cyswllt-ysgolion@aber.ac.uk.

Blas ar y Brifysgol

Gall eich mab/merch gael blas ar Brifysgol Aberystwyth dros eu hun, wrth fynychu'r un o'n rhaglenni diwrnod/perswyl poblogaidd. Yn ystod eu amser yma byddwn yn teilwra rhaglen o weithgareddau iddynt, fel bod eich mab/merch yn cael cyfle i brofi bywyd academaidd, cymdeithasol a'r chwaraeon sydd ar gael yma, eu cyflwyno i'n cyfleusterau blaengar, a mynd ar daith o'n campws a chyfleusterau. Os hoffai eich mab/merch gael blas ar fywyd yn y Brifysgol dros eu hun, gofynnwch iddynt gysylltu â ni: www.aber.ac.uk/cy/undergrad/schools, 01970622065, neu ebostio cyswllt-ysgolion@aber.ac.uk.

Diwrnodau Agored Rhithwir

Gallwch brofi Prifysgol Aberystwyth heb orfod teithio trwy ymuno â'n Diwrnodau Agored Rhithwir Ar-lein. Cewch ragor o wybodaeth ar: www.aber.ac.uk/rhithwir

Ffioedd dysgu a chefnogaeth ariannol

Yma rydyn ni'n amlygu'r prif ddarpariaeth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n dechrau astudio mewn sefydliad addysg uwch yn 2017. Nid yw'r cynnwys yn drwyadl, ond bydd yn rhoi man cychwyn defnyddiol i chi.

Ffioedd dysgu

Bydd cost ffioedd dysgu yn dibynnu ar ba sefydliad addysg uwch yr ydych yn penderfynu astudio ynddo. Cododd Prifysgol Aberystwyth £9,000 am gyrsiau israddedig yn dechrau yn 2016, ond y peth pwysig i'w gofio yw bod gennych hawl i wneud cais am fenthyciad gan y Llywodraeth i dalu am gostau'r ffioedd. Nid yw'r benthyciad hwn yn dibynnu ar brawf modd a chaiff ei dalu'n uniongyrchol i'r Brifysgol ar eich rhan os ydych chi'n dewis gwneud cais amdano.

Os ydych chi'n fyfyrwr sy'n byw yng Nghymru rydych yn gymwys i gael grant ffioedd (nad oes angen ei ad-dalu) gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn 2016, roedd rhaid i fyfyrwyr dalu tua £3810 o gyfanswm y ffioedd, ac mae benthyciad ffioedd ar gael i dalu am hyn. Cofiwch fod rhaid i chi wneud cais i Cyllid Myfyrwyr Cymru am y grant ffioedd hwn, ni chaiff hyn ei wneud yn awtomatig; bydd myfyrwyr nad ydynt yn cyflwyno ffurflen gais yn agored i orfod talu'r ffioedd dysgu llawn o £9000.

Am y wybodaeth diweddaraf ar ein ffioedd dysgu a'r cefnogaeth sydd ar gael ar gyfer mynediad yn 2017 ewch i'n gwefan: www.aber.ac.uk/cy/undergrad/fees-finance

Help gyda chostau byw

Yn ogystal â'r benthyciadau ar gyfer ffioedd dysgu, gallwch hefyd wneud cais am fenthyciad cynnal a chadw (a elwir weithiau'n fenthyciad costau byw). Diben y benthyciad hwn yn bennaf yw cynorthwyo â phethau megis llety, costau teithio, llyfrau, ac ati.

Mae'r benthyciad cynnal a chadw/costau byw yn dibynnu ar brawf modd a bydd ei werth yn cynyddu ar gyfer mynediad yn 2017. Bydd y benthyciad cynnal

a chadw/costau byw yn cael ei dalu mewn i gyfrif banc eich mab/merch, felly eu cyfrifoldeb nhw fydd cynllunio cyllideb a phenderfynu sut mae gwario'r arian. Cysylltwch â'r awdurdod ariannol o'r restru isod, yn dibynn ar ble rydych yn byw.

Cofiwch:

- Ni fydd angen i chi ad-dalu'ch benthyciad myfyrwyr nes i chi raddio ac ennill dros £21,000 y flwyddyn
- Mae'r swm rydych chi'n ei ad-dalu wedi'i gyfrifo ar sail eich enillion, nid maint y benthyciad
- Dileir unrhyw fenthyciad sydd heb ei ad-dalu ar ôl 30 mlynedd

Cymorth ychwanegol yn amodol ar eich amgylchiadau

Mae rhagor o grantiau ar gael gan y Llywodraeth yn amodol ar eich amgylchiadau personol.

Myfyrwyr sy'n byw yn Lloegr: www.studentfinance.direct.gov.uk

Myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru: www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Myfyrwyr sy'n byw yn yr Alban: www.saas.gov.uk

Myfyrwyr sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon: www.studentfinanceni.co.uk

Un peth i'w gofio, yn arbennig wrth ystyried pa brifysgol i wneud cais iddi, yw edrych ar ba ysgoloriaethau a bwsariaethau sydd ar gael. Mae ystod eang o gymorth ariannol ar gael gan brifysgolion, felly mae'n werth treulio amser yn edrych ar beth sydd ar gael. Mae Aberystwyth yn cynnig pecyn hael o ysgoloriaethau a bwsariaethau, sydd ar gael i nifer o'n myfyrwyr (gweler tudalen 15).

Arbedion ychwanegol

Mae sawl ffordd arall o gael cyllid mae'n bosib bydd angen i'ch mab/merch eu hystyried...

Gwaith rhan-amser

Mae nifer o fyfyrwyr yn ychwanegu at eu incwm ariannol trwy gymryd gwaith rhan-amser yn ystod y tymor neu yn y gwyliau, ac mae digon o gyfle i wneud hyn yn Aberystwyth. Rhaid cofio nad yw hi bob amser yn hawdd i gadw'r cydbwysedd iawn rhwng gwaith o'r fath ac astudio, yn enwedig yng nghyfnod yr arholiadau. Mae gan fyfyrwyr hawl i ennill cyflog hyd at y lwfans personol (£11,000 ar gyfer y flwyddyn dreth 2016-17) cyn gorfod talu treth. Nid yw grantiau, ysgoloriaethau na benthyciadau'n cyfri tuag at ddibenion treth. Er mwyn amddiffyn lles academiaidd y myfyriwr, mae rheolau'r Brifysgol yn dweud na ddylai myfyrwyr weithio mwy na 15 awr y wythnos mewn swydd sy'n talu.

Gweithio o fewn y Brifysgol a thu hwnt

Ceir hefyd ddigonedd o gyfleoedd i gymryd rhan ym mywyd y Brifysgol o fewn eich adran ac ar y campws. Mae cynllun AberYmlaen y Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd am brofiad gwaith i chi ar y campws ac ar draws yr holl adrannau'n ystod gwyliau'r haf eich blwyddyn gyntaf a'ch ail flwyddyn yma fel myfyriwr. Rydym hefyd yn cynnig Aber Ar Alw, sy'n darparu cyfleoedd am waith cyflogedig rhan-amser achlysurol ledled y Brifysgol yn arbennig i'n myfyrwyr ni mewn swyddi sy'n amrywio o farchnata, garddio ac ymchwil i weinyddu gwasanaeth arian a bod yn un o lysgenhadon y Brifysgol. Ceir cyfleoedd hefyd o fewn Undeb y Myfyrwyr i wirfoddoli, gweithio a chael profiad gwaith. Am fwy o wybodaeth ar unrhyw un o'r opsiynau yma a'r ystod ehangach o waith rhan-amser ac yn ystod y gwyliau tu allan i'r Brifysgol yn lleol, genedlaethol ac yn ryngwladol, gall eich mab/merch alw heibio'r Gwasanaeth Gyrfaoedd ar unrhyw adeg. Yn y cyfamser, ewch i: www.aber.ac.uk/cy/careers

Nawdd

Er nad yw'r cyfle am nawdd yn gyffredin iawn, mae rhai cwmnïau a'r lluoedd arfog yn barod i noddi myfyrwyr drwy brifysgol neu goleg, ac mae'r rhain fel arfer yn rhoi gwaith i'r myfyrwyr yn ystod y gwyliau, neu hyd yn oed yn addo swydd iddynt ar ôl i'r cwrs ddod i ben. Fel arfer mae'n rhaid cysylltu â'r cwmni mewn da bryd. Yn aml bydd cwmni'n barod i noddi myfyriwr drwy brifysgol os bydd ef/hi wedi treulio cyfnod llwyddiannus o brofiad gwaith gyda nhw yn ystod gwyliau'r haf, neu ar flwyddyn allan o'r brifysgol yn ystod eu cwrs.

Cynllun Blwyddyn mewn Gwaith

Trwy Cynllun Blwyddyn mewn Gwaith (BMG) y Brifysgol gall myfyrwyr, gyda chefnogaeth eu hadrannau, gymryd blwyddyn wirfoddol allan rhwng ail a thrydedd flwyddyn y cwrs mewn gwaith cyflogedig gyda chwmni yn y Deyrnas Unedig a thramor. Mae cymryd rhan yn y cynllun yn brofiad adeiladol a gwerth chweil yn bersonol ac yn broffesiynol.

Trefnu cyllid

Gall y dyddiau cyntaf mewn prifysgol fod yn brysur ac mae'r gofynion ar amser ac arian myfyrwyr yn drwm. Mae'n bwysig cynllunio ymlaen llaw er mwyn osgoi gwario'r arian i gyd yn yr wythnosau cyntaf. Mae pob banc a chymdeithas adeiladu yn Aberystwyth wedi hen arfer â delio â chyfrifon myfyrwyr ac mae ganddyn nhw staff profiadol i'w cynghori. Bydd y gallu i drefnu arian o fantais fawr rwy gydol y cyfnod yn y brifysgol. Efallai y gallech chi drafod cyllid drafft gyda'ch mab neu'ch merch. Ac os yw'ch amgylchiadau yn caniatáu, mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi drefnu rhoi peth cymorth ariannol eich hun.

Gwybodaeth a chymorth pellach

Gall Gynghorwyr Myfyrwyr ein Gwasanaethau Cefnogaeth i Fyfrwyr eich darparu â chymorth pellach am reoli arian, mynedd ffynonellau o gymorth ariannol ychwanegol, a'ch helpu gwblhau ceisiadau cyllid.

Ysgoloriaethau, bwrsariaethau a gwobrau

Rydym ni'n cynnig pecyn hael a chynhwysfawr o wobrau ariannol i'n ymgeiswyr. Mae'r rhan fwyaf o'n gwobrau yn agored i fyfyrwyr amser llawn o'r Deyrnas Unedig/Undeb Ewropeaidd.

- **Ysgoloriaethau Mynediad** – tua 70 o wobrau ar gael, werth unai £1,000 neu £2,000 y flwyddyn. Gwobrwyir ar sail dau arholiad a osodir gan y Brifysgol ar y 31 Ionawr. Gellir lawrlwytho enghreifftiau o hen bapurau oddi ar ein gwefan. Dyddiad cau i wneud cais 18 Ionawr.
- **Gwobrau Teilyngdod** – £1,000 yn ystod y flwyddyn gyntaf; tua 250 ar gael. I fyfyrwyr sy'n methu o drwch blewyn ag ennill Ysgoloriaeth Mynediad.
- **Bwrsariaethau Aberystwyth** – ein bwrsariaeth sy'n ddibynol ar incwm cartref, werth unai £500 neu £750 y flwyddyn i fyfyrwyr o gartrefi sydd â incwm yn is na £35,000.
- **Ysgoloriaethau Chwaraeon** – £500 y flwyddyn yn ogystal ag aelodaeth am ddim o Glwb Sborti a manteision eraill. Rhoddir y rhain i fyfyrwyr sy'n gallu dangos cyflawniad diweddar o safon uchel yn eu camp ddewisedig, yn ogystal ag ymrwymiad i ddatblygu eu perfformiad tra'n y Brifysgol. Dyddiad cau yw 30 Mehefin.
- **Ysgoloriaethau Cerdd** – £500 y flwyddyn yn ogystal ag aelodaeth am ddim o grwpiau cerddorol y Ganolfan Gerdd a manteision eraill i offerynwyr cerddorfaol profiadol. Y dyddiad cau yw 15 Mehefin.
- **Ysgoloriaethau Adrannol** – £250 i £500 y flwyddyn, ar hyn o bryd ar gael yn yr Adrannau Cyfrifiadureg, Mathemateg a Ffiseg.
- **Bwrsariaethau Gadael Gofal, Gofalwyr Ifanc a grwpiau cysylltiedig** – £800 i £1,500 y flwyddyn.
- **Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol** – rhwng £500 i £1,000 y flwyddyn i fyfyrwyr sy'n bwriadu astudio rhan neu'r cyfan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg (www.colegcymraeg.ac.uk).



Mae ein pecyn ariannol yn golygu ei bod yn bosib derbyn dros £15,000 yn ystod cyfnod cwrs 3 blynedd yn Aberystwyth. Nid oes raid i'ch mab/merch dalu'r arian yn ôl, ac y mae ar ben unrhyw grantiau neu fenthyciadau y byddant yn derbyn.

I gael manylion llawn o'r hyn sydd gennym i'w gynnig, ac i weld telerau ac amodau pob gwobr unigol, gweler ein llyfryn Ysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau neu ewch i'n gwefan:

www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau

Llety

Mae ein llety wedi'i leoli o fewn cyrraedd rhwydd i'r campws fel nad oes angen cymudo costus. Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o lety er mwyn darparu opsiwn fydd yn gweddu orau i'ch mab/merch a'ch cyllideg.

Rydym hefyd yn gwarantu llety i holl fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf (cyhyd a derbynir y ceisiadau erbyn 1af o Awst yn y flwyddyn mynediad, a bod eich mab/merch wedi ymateb i'n cynnig cyn y dyddiad cau a osodir). I helpu'ch mab/merch i weithio, mae gan bob un o'n hystafelloedd gwely/astudio fynediad am ddim i'r we, a maent yn cynnig cysylltiadau di-wifr a thrwy wifren. Mae pob llety yn gymuned fywiog gyda'i chymeriad unigryw ei hun, gan gynnig amgylchedd diogel i gymdeithasu, astudio ac ymlacio ynddo.

Llety hunanarlwyo

Mae'r llety hunanarlwyo wedi'i drefnu naill ai mewn fflatiau neu dai unigol sy'n dal rhwng 2 a 10 o bobl, sy'n cynnwys geginau llawn sy'n rhoi'r annibyniaeth i'ch mab/merch goginio dros ei hun. Mae'r holl lety hunanarlwyo (ar wahân i'n llety en-suite) yn cynnig adnoddau ystafell ymolchi a rennir gan gynnwys: toiled(au), basn(au) ymolchi, cawodydd a/neu faddonau.

Fferm Penglais (en-suite a fflatiau stiwdio)	
Lleoliad:	top Rhiw Penglais Hill, gyferbyn â Champws Penglais
Ystafelloedd:	sengl en-suite (gyda gwelyau dwbl a chawod mawr)
Fflatiau:	6 neu 8 person
Ceginau'n cynnwys:	ffwrn gyda gril a hob sefydlu (induction), oergell/rhewgell, peiriant golch llestri, microdon, tecell, ac eitemau hanfodol eraill
Ardaloedd cymunol:	cegin yn cynnwys lolf a gyda soffas, bwrdd coffi a theledu
Cyfleusterau canolog:	golchdai, storffeydd, cyfleusterau cymdeithasol, cyfleusterau chwaraeon
Ceir ardal benodedig o fewn Fferm Penglais sydd wedi'i neilltuo ar gyfer dysgwyr a siaradwyr rhugl Cymraeg sydd am fyw mewn amgylchedd lle siaredir Cymraeg yn gyson.	



Rosser	
Lleoliad:	top Campws Penglais
Ystafelloedd:	sengl en-suite
Fflatiau:	8 person
Ceginau'n cynnwys:	ffwrn gyda gril a hob, oergell/rhewgell, microdon, tecell, ac eitemau hanfodol eraill
Ardaloedd cymunol:	cegin yn cynnwys soffas, bwrdd bwyd neu far brecwast
Cyfleusterau canolog:	golchdy, canolfan ddysgu (y Lolf a, sy'n cynnwys cyfrifiaduron, cysylltiad di-wifr, ardaloedd astudio grŵp, llungopiwr, peiriant gwerthu a soffas)



Trefloyne	
Lleoliad:	top Campws Penglais
Ystafelloedd:	sengl
Fflatiau:	7 person
Ceginau'n cynnwys:	ffwrn gyda gril a hob, oergell/rhewgell, microdon, tecell, ac eitemau hanfodol eraill
Ardaloedd cymunol:	cegin yn cynnwys soff a bwrdd bwyd
Cyfleusterau canolog:	golchdy, canolfan ddysgu (y Lolf a, sy'n cynnwys cyfrifiaduron, cysylltiad di-wifr, ardaloedd astudio grŵp, llungopiwr, peiriant gwerthu a soffas)

Cwrt Mawr	
Lleoliad:	top Campws Penglais
Ystafelloedd:	sengl neu bâr
Fflatiau:	6 i 10 person
Ceginau'n cynnwys:	ffwrn gyda gril a hob, oergell/rhewgell, microdon, tecell, ac eitemau hanfodol eraill
Ardaloedd cymunol:	ardal fwyta yn y gegin
Cyfleusterau canolog:	golchdy, canolfan ddysgu (y Lolf a, sy'n cynnwys cyfrifiaduron, cysylltiad di-wifr, ardaloedd astudio grŵp, llungopiwr, peiriant gwerthu a soffas), storfa feiciau ddiogel



Pentre Jane Morgan (PJM)	
Lleoliad:	top Rhiw Penglais Hill, gyferbyn â Champws Penglais
Ystafelloedd:	sengl neu bâr
Fflatiau:	5 neu 6 person
Ceginau'n cynnwys:	ffwrn gyda gril a hob, oergell/rhewgell, microdon, tecell, ac eitemau hanfodol eraill
Ardaloedd cymunol:	ardal fwyta yn y gegin
Cyfleusterau canolog:	golchdy, canolfan ddysgu (y Lolf a, sy'n cynnwys cyfrifiaduron, cysylltiad di-wifr, ardaloedd astudio grŵp, llungopiwr, peiriant gwerthu a soffas)



Preswylfeydd Glan y Môr (rhai en-suite)	
Lleoliad:	Ochr Craig Las o'r promenâd
Ystafelloedd:	sengl (rhai en-suite)
Fflatiau:	4 i 10 person
Ceginau'n cynnwys:	ffwrn gyda gril a hob, oergell/rhewgell, microdon, tecell, ac eitemau hanfodol eraill
Ardaloedd cymunol:	ardal fwyta yn y gegin
Cyfleusterau canolog:	cyfleusterau golchi dillad

Penbryn

Lleoliad:	Campws Penglais
Ystafelloedd:	sengl, rhai ystafelloedd bâr
Fflatiau:	12 i 25 person
Ceginau'n cynnwys:	pentan/popty pen bwrdd, oergell/rhewgell, microdon, tecell, ac eitemau hanfodol eraill
Ardaloedd cymunol:	ardal gyda seddi cyfforddus
Cyfleusterau canolog:	bwyty/caffi, adnoddau golchi dillad, storfa feiciau diogel, peiriant gwerth bwyd

Ceir ardal benodedig o fewn Penbryn sydd wedi'i neilltuo ar gyfer dysgwyr a siaradwyr rhugl Cymraeg sydd am fyw mewn amgylchedd lle siaredir Cymraeg yn gyson.



Cerdyn Aber

Fel myfyriwr sydd mewn llety arlwy, caiff credyd ei roi'n awtomatig ar eich Cerdyn Aber fydd yn ddigon i gael o leiaf un pryd o fwyd y dydd. Mae'r lwfans bwyd hwn yn rhan o'ch ffi llety ac fe gaiff ei roi ar Gerdyn Aber eich mab/merch bob tymor, gan roi hyblygrwydd iddynt ynghylch pryd a ble i fwyta. Gellir cael y pryd bwyd yn TaMed Da neu yn unrhyw un o fwytai eraill y Brifysgol.

Pr'un ai bod eich mab/merch mewn llety wedi arlwy neu beidio, gallwch roi arian ar Gerdyn Aber eich mab/merch arlein. Byddant yn gallu defnyddio'r arian yma un unrhyw un o fwytai'r Brifysgol (heblaw am ar ddiod feddwol), yn ogystal ag yn y Ganolfan Chwaraeon.

Bydd yr holl breswylwyr, boed mewn llety arlwy neu beidio, yn gallu defnyddio Cerdyn Aber yn unrhyw rai o'n mannau arlwy, a byddwch yn manteisio yn sgil disgownt o 10%. Cerdyn Aber yw'r ddogfen adnabod myfyriwr hefyd, a bydd yn rhoi mynediad i nifer o breswylfeydd, canolfannau dysgu 24 awr, golchdai, a gwasanaethau llyfrgell ac argraffu.



Gwasanaethau Arlwy

Mae ein Gwasanaethau Croeso yn cynnig ystod eiddo o ddewis o lefydd ble gellir defnyddio'r cerdyn Aber, yn ein bwytai a siopau:

- Bwyty TaMed Da, Siop Goffi TaMed Bach, neuaddau Penbryn
- Blas Gogerddan, Campws Gogerddan
- Caffi Canolfan y Celfyddydau a Chaffi'r Piazza, Penglais
- Caffi IBER Bach, Campws Penglais
- Siop SGUBORfach, Fferm Penglais
- Siop Undeb y Myfyrwyr – Penglais
- Starbucks – Penglais
- Blas Padarn - Canolfan Llanbadarn
- SGUBORfach - Fferm Penglais

Ceir rhagor o wybodaeth am y Gwasanaethau Croeso ar: www.aber.ac.uk/cy/hospitality

Beth sydd wedi'i gynnwys yn y ffi llety?

Wedi'i gynnwys yn ein ffioedd llety mae:

- **Yswiriant** - mae gennym bolisi yswiriant 'bloc' ar gyfer gwarchod rhai o'ch eitemau yn erbyn dwyn, tân, llifogydd a difrod damweiniol gyda gwarchodaeth ddiderfyn ar ystafelloedd myfyrwyr.
- **Taliadau Ynni** - gwresogi, dŵr, trydan a goleuo
- **Cyswllt rhwydwaith yn yr ystafelloedd** - mae pob ystafell wely yn cynnwys pwyntiau cyswllt rhyngwryd sy'n cynnig cyswllt cyflym â'r rhyngwryd drwy'r rhwydwaith cyfrifiadurol academiaidd. Yn ogystal â hyn, mae cysylltiad diwifr ar gael yn y rhan fwyaf o'n neuaddau preswyl.
- **Storfa beiciau** - mae rheseli beiciau allanol a nifer cyfyngedig o fannau cadw beiciau diogel dan do ar gael yng Nghwrt Mawr, Fferm Penglais a Phenbryn yn rhad ac am ddim i breswylwyr. Mae adnoddau golchi beiciau hefyd ar gael yn Fferm Penglais. Gallwch archebu lleoedd drwy'r Swyddfa Llety.
- **Cyfleusterau dysgu** - mae gan Pentre Jane Morgan a Neuaddau Breswyl Rosser ganolfannau dysgu sy'n rhoi lle cyfleus i chi astudio eich hun neu mewn grŵpiau

Gwneud cais am lety

Os yw eich mab/merch yn dal Aberystwyth fel dewis prifysgol cadarn neu wrth gefn, o 1 Ebrill ymlaen yn y flwyddyn mynediad, bydd y Swyddfa Llety yn anfon llythyr o wahoddiad i'w cyfeiriad cartref gyda gwybodaeth am sut i gael mynediad i'n ffurflen gais ar-lein a'i llenwi.

Llety yn y sector breifat

Er bod lle yn llety'r Brifysgol i nifer fawr o fyfyrwyr ail a thrydedd flwyddyn, mae rhai'n dewis symud i'r sector breifat, ac mae gan Aberystwyth ddigon o lety o'r fath i'w gynnig. Mae'r Swyddfa Llety yn cynnig gwasanaeth cyngori sector breifat, sy'n cynnwys cynnal cronfa ddata o lety sector breifat, ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych, yn ogystal â gwirio cytundebau tenantiaeth.

Swyddfa Llety

Y Sgubor

Fferm Penglais

Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth, SY23 3FH

Ffôn: 01970 622984

E-bost: llety@aber.ac.uk

Gwefan: www.aber.ac.uk/cy/accommodation

Facebook: Aberystwyth University

Accommodation Office

Twitter: @PrifAber_IR



Sut i baratoi eich mab/merch ar gyfer prifysgol

Mae'r amser wedi dod i'ch mab/merch gymryd cam yn agosach tuag at fywyd fel oedolyn annibynnol. Mae'r Brifysgol yn darparu man canol da, sy'n eu paratoi ar gyfer y byd go iawn.

Cyn iddynt fynd:

- Gwnewch yn siwr bo nhw wedi cwblhau a dychwelyd eu cais am arian i'r corff ariannol addas (er enghraifft, Cyllid Myfyrwyr Cymru). Os na fydd y ffurflen wedi ei lenwi'n gywir ac mewn pryd gall eich mab/merch golli'r cyfle am rai o'r bwrsariaethau sy'n seiliedig ar brawf moddion sydd ar gael, neu bod eu benthyciad ddim yn dod drwyddo mewn pryd.
- Ydy'ch mab/merch yn gyfarwydd â defnyddio peiriant golchi? All eich mab/merch goginio rhai prydau?
- Sicrhewch fod gan eich mab/merch gyfrif banc cyn dechrau ei gwrs/chwrs. Cofiwch ystyried cynnigion eraill a thrïo dod o hyd i un bydd yn cynnig lleihau'r gorddrafft ar ôl iddynt radio yn raddol. Mae gwefan Martin Lewis yn cynnig cyngor gwych (www.moneysavingexpert.com/family/).
- Os nad yw'ch mab/merch wedi arfer bod yng ngofal o arian, ceisiwch weithio drwy cynllun cyllidol gyda nhw.
- Gwnewch yn siwr bod yr adnoddau arlwyio yn addas ar gyfer eich mab/merch. Gall neuadd hunan-arlwyol fod yn dipyn her i fyfyrwr nad yw wedi berwi wy erioed. Bydd eich mab/merch angen Cerdyn Aber, (gweler tudalen 18).
- Ein bwriad yw darparu profiad o'r safon uchaf i bob myfyrwr, a sicrhau bod mynediad gan bawb i'm cyfleusterau academiaidd. Ar gyfer myfyrwyr anabl, rheini â chyflwr iechyd hir dymor, neu wahaniaethau dysgu penodol, gallwn drefnu amrywiaeth o gymorth e.e. llety wedi'i addasu, technoleg pwrpasol, a threfniadau arbennig ar gyfer arholiadau, fel bod eich mab/merch yn cyrraedd eu potensial. Am wybodaeth pellach, neu os oes gennych gwestiynau penodol, mae

croeso i chi gysylltu â ni drwy ebost disability@aber.ac.uk neu drwy ffonio 01970 621761.

- Sicrhewch bod ffôn eich mab/merch ymhlith y rhataf o ran taliadau, un sydd â phris sefydlog arno os oes modd gan gynnwys munudau/negeseuon testun/defnydd o'r wê/lawrlwytho data am ddim, fel na fydd yn rhaid iddynt wynebu biliau mawr annisgwyl.
- Unwaith mae cyfrif ebost eich mab/merch wedi ei greu, gallant ymgeisio am eu Cerdyn Aber arlein. Yna bydd yn barod iddynt ei gasglu yn ystod yr wythnos groeso. Byddant angen hwn er mwyn defnyddio'r llyfrgell, gwasanaethau cyfrifiaduereg a chyfathrebu, a hefyd gellir ei ddefnyddio mewn bwytai ar draws y campws. Byddant wedi derbyn ebost yn cynnwys manylion ar sut i wneud hyn, yn ystod yr wythnos gyntaf.
- Annogwch eich mab/merch i dynnu lot o luniau pasbort cyn iddynt gyrraedd, gan byddant angen nifer o'r rhein yn ystod yr wythnos gyntaf.
- Cymrwch olwg ar ein Llyfryn i Drigolion, a ddarperir gan y swyddfa lety (mae hefyd ar gael arlein) gan fod gwybodaeth defnyddiol iawn ynddo a rhai syniadau da am fyw mewn neuadd.

Symud i fewn:

- Atgoffwch eich mab/merch o'r dogfennau sydd eu hangen wrth ddod i'r brifysgol (yn cynnwys tystysgrif geni, tystysgrifau gwreiddiol arholiadau – weithiau gofynnir am rhain). Dewch â digon o ffotograffau pasbort hefyd!
- Rhowch gyngor iddynt ar y pethau personol y bydd eu hangen arny'n nhw a gwnewch yn siwr eu bod wedi hyswiro eu heiddo. Mae yswiriant integrol yn gorchuddio myfyrwyr sy'n byw mewn. Ceir restr ddefnyddiol ar dudalennau llety ein gwefan am yr hyn mae angen iddynt ddod gyda hwy: www.aber.ac.uk/cy/accommodation/moving-in/checklist/
- Rhaid i fyfyrwyr gael Trwydded Teledu os ydynt yn dod â theledu i'r Brifysgol.
- Bydd angen iddynt ddod a'u Ffurflen Rhyddhau Allweddol gyda hwy. Byddant yn cael un o'r rhain wrth iddynt gwblhau eu Rhaglen Groeso arlein.
- Annogwch nhw i fynd â rhai pethau personol gyda hwy, er enghraifft lluniau, manion, posteri, dillad gwely penodol, neu clustogau ychwanegol. Bydd yn eu helpu i deimlo'n fwy cyfforddus yn eu ystafell wely. Darperir pinfwrdd, ond efallai bydd e werth dod a 'white-tack' hefyd.
- Gallwch nawr archebu dillad gwely a rhai pethau cegin, a threfnu iddynt gael eu cludo'n syth i'ch llety drwy www.Click2Campus.co.uk; a mae rhai siopau'n y dref hefyd yn cynnig gwasanaeth Clicio a Chasglu, gan gynnwys Matalan, M&Co, Argos a Next.
- Atgoffwch eich mab/merch y gallant droi at y Tim A (myfyrwyr presennol mewn cysau t coch) ar unrhyw adeg yn ystod Wythnos y Glas, am gymorth a chynghor am unrhyw broblem a dangos iddynt ble mae pethau os byddant yn mynd ar goll.
- Ceisiwch sicrhau bod amser gyda chi ar diwrnod symud i fewn os ydynt am fynd i siopa gyda chi, falle bo nhw'n edrych ymlaen i wneud hyn fel modd o nodi'r achlysur!
- Cyn i chi adael, anogwch nhw i fod yn ofalus ond i fwynhau eu hun - dylent geisio ymuno â gymaint o gymdeithasau gallynt, a gwneud y mwyaf o'u hamser yn y brifysgol!



Byd arall... cynefin newydd

Mae'n hollol naturiol i fyfyrwyr a'u rhieni fod yn bryderus ynglyn â'r wythnosau cyntaf yn y brifysgol. Hwn yw'r cyfnod anoddaf i bawb, wrth i fyfyrwyr addasu i'w bywyd newydd a chwrdd â phobl newydd, ac wrth i'r rhieni ddod i arfer â'r lle gwag yn y cartref ar ôl eu mab neu ferch.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod ein myfyrwyr yn setlo cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau'r tymor. Rydym yn trefnu rhaglen sy'n dangos sut mae'r sefydliad yn gweithredu ac yn rhoi cyflwyniad trwyadl i'r holl adnoddau sydd ar gael i'r myfyrwyr.

Gall myfyrwyr droi i sawl cyfeiriad i gael cymorth a chynghor yn ystod y cyfnod cyntaf, er enghraifft wardeniaid y llety, eu tiwtoriaid personol yn yr adrannau academiaidd, a Gwasanaethau Lles y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Hefyd gellir dod o hyd i'r Tim A o gwmpas y campws yn ystod wythnos y Glas, sef rhai o'n myfyrwyr presennol, sy'n gwisgo crysau t coch. Maent yno i ateb unrhyw gwestiynau fydd gan eich mab/ merch, gan gynnwys sut i gwblhau ffurflenni, sut i gael cerdyn llyfrgell, cyfeiriadau i ystafelloedd ac adeiladau, ac unrhywbeth arall y byddant angen ei wybod. Ddylai neb betruso rhag defnyddio'r gwasanaethau hyn; eu diben yw cynorthwyo myfyrwyr i ymgynffwrdd cyn gynted â phosibl er mwyn cael y gorau o'u hamgylchiadau a chyflawni eu potensial.

Lleolir y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr ar Gampws Penglais, ac mae ar agor drwy gydol y flwyddyn. Yn y Ganolfan gall myfyrwyr ddod o hyd i'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr, a gyferbyn iddo yn Adeilad Cledwyn ceir y Swyddfeidd Derbyn.

Rydym yn eich gwahodd chi i'r sgwrs Groeso'r Is-Ganghellor, cynhelir yn ystod yr Wythnos Groeso, sef y cyfnod pan fydd teuluoedd yn hebrwng myfyrwyr i'r brifysgol.

Gobeithio y bydd yn gysur i chi wybod ein bod yn ymwybodol o'r pryderon naturiol sydd gennych, ac y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu eich mab neu'ch merch i ymgartrefu yma. Ar ôl dod i arfer â'r lle, gallwn ddweud yn onest bod y mwyafrif o'n myfyrwyr yn magu ymlyniad cryf â'r dref a'r Brifysgol. Yn wir, mae rhai ohonynt yn aros yn yr ardal ac o fewn y brifysgol am flynyddoedd!

Does dim raid i chi gredu ni am hyn oll! Dyma ddywedodd rhai i'n myfyrwyr ni am eu wythnos gynta'n Aberystwyth...

"Y noson cyn i mi ddod i'r brifysgol, nes i ddim cysgu dim gan mod i mor nerfus! Ond gyntaf gyrrhaeddis i sylweddolais bod pawb yn yr un sefyllfa â fi, a dyna pryd wnes i rhai o ffrindiau gorau fy mywyd. Mae Aber yn lle mor neis setlais i fewn yma mewn dim o dro, a bydden i hyd yn oed yn dweud bod well gen i fan hyn na gatref!"

Phil Kirby, Wolverhampton

"Roeddwn yn teimlo'n nerfus ond yn gyffrous pan des i yma i ddechrau, a byddwn yn annog myfyrwyr i gymdeithasu cymaint â phosibl. Wnes fynd â bagiau te a mwg gen i ac roedd hi'n ofnadwy o neis cael paned ar ôl gorffen symud i mewn."

Poppy Evans, Rhydaman

Dilynwch ni ar Facebook...

Gallwch annog eich mab/ merch i ymuno â'n tudalen Facebook i fyfyrwyr newydd Aberystwyth, drwy chwilio am 'Prifysgol Aberystwyth Darpar Fyfyrwyr'. Rydym hefyd ar twitter /AberUni_IR. Mae'r tudalennau hyn yn rhoi cyfle i chi ofyn cwestiynau ac i sgwrsio â myfyrwyr newydd eraill.

Hefyd os oes gennych chi gwestiynau eich hun fel rhiant, teimlwch yn rhydd i ymuno â:

www.facebook.com/groups/parentsofaberunistudents/

Fe gewch yma hefyd atebion i'ch cwestiynau.



YouTube

youtube.com/PrifysgolAberystwyth

Dewch o hyd i ni ar lefydd eraill:

www.aber.ac.uk/cy/social-media



“”

92% o'n myfyrwyr yn hapus gyda'u profiad fel myfyriwr yma, Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr 2016

Yn cefnogi eich mab/merch

Mae ein cymuned glos yn bluen yn ein het. Mae perthynas unigryw rhwng y myfyrwyr ac mae ein staff, a'r gymuned o fewn y Brifysgol, yn wych ac yn aml iawn byddant yn adnabod eich mab/merch wrth ei enw cyntaf.

Cefnogaeth

Os bydd gan eich mab/merch unrhyw broblemau hoffon drafod gyda'n staff, dylent yn y lle cyntaf gysylltu â'u tiwtor personol, neu'r pennaeth blwyddyn yn yr adran academiaidd. Os byddant angen cyngor mwy penodol neu arbenigol gallynt gysylltu â'r Ganolfan Croesawu Myfyrwyr neu Wasanaeth Cyngori Undeb y Myfyrwyr.

Gwobrwywyd ein Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr â'r Mentoring and Befriending Foundation's Approved Provider Standard am ei gynllun mentora i gefnogi dysgwyr (sy'n cefnogi myfyrwyr anabl neu rheini ag anhawsterau dysgu penodol) a'i gynllun mentora Ffordd Hyn. Mae'r Approved Provider Standard (APS) yn farc o safon cenedlaethol sydd wedi ei greu'n benodol ar gyfer pob math o brosiectau mentora a chyfeillio.

Mentora

Cynllun mentora cyd-fyfyrwyr i fyfyrwyr newydd yw'r cynllun Ffordd Hyn yn bennaf. Mae'n cynnig cyngor un-i-un cyfrinachol a chyfeillgar ar unrhyw agwedd ar fywyd prifysgol, i helpu'ch mab/merch i gyflawni eu potensial, dod i arfer â bywyd prifysgol, cynllunio ar gyfer y dyfodol a manteisio i'r eithaf ar eich amser yn y brifysgol.

Iechyd a lles

Mae angen i bob myfyrwr gofrestru mewn meddygfa leol. Fel 'Tref Brifysgol' mae gan y meddygfeydd lleol brofiad helaeth o ymdrin ag anghenion myfyrwyr. O achos ei maint a'i lleoliad mae gan Aberystwyth Ysbyty Ggyfreddinol sydd drws nesaf i gampws Penglais.

Mae Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr y Brifysgol (a leolir yn y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr) yn darparu cyngor ar ystod o faterion iechyd, gan gynnwys lles emosynol a rhywiol, a'n darpariaeth iechyd meddwl, hybu iechyd, a chynghori. Mae'r Gwasanaeth yn ychwanegol i'r ddarpariaeth statudol.

Cymorth Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian i Fyfyrwyr yn darparu gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth a chyfeirio ar ystod eang o faterion. Mae ein gwasanaeth yn gyfrinachol, ddim yn feirniadol, ac yn rhad ac am ddim. Mae gennym wasanaeth galw heibio neu gallwch wneud apwyntiad gyda Chynghorydd drwy gysylltu â'n Desg Croesawu Myfyrwyr.

Mae'r cynghorwyr myfyrwyr wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Arian Myfyrwyr (NASMA) ac maent yn gallu cynnig cyngor proffesiynol ar reoli arian neu unrhyw faterion yn ymwneud â chyllid myfyrwyr. Gallant hefyd roi cyngor ac arweiniad ar unrhyw ymholiadau yn ymwneud â llety, cynnydd academiaidd, gweithdrefnau'r Brifysgol neu gymhwysedd am gronfeydd caledi.

Myfyrwyr Anabl/rheini ag angenion dysgu penodol neu gyflyrau iechyd gronig

Mae croeso i fyfyrwyr anabl gysylltu â'r Cynghorydd Hygyrchedd i drefnu cefnogaeth gan staff arbenigol a chael cyngor am yr ystod o gyfarpar arbenigol neu feddalwedd sydd ar gael. Gall y Gwasanaeth Hygyrchedd hefyd roi cyngor am y Lwfans Myfyrwyr Anabl.



Creddau crefyddol

Mae cyfleusterau a threfniadau ar gael yn Aberystwyth ar gyfer y prif grefyddau. Mae gan y Brifysgol dwy ofod aml-grefydd benodol, ac mae nifer o wahanol grwpiau crefyddol i'w cael ymhlith cymdeithasau myfyrwyr niferus Undeb y Myfyrwyr.

Diogelwch ac yswiriant

Er bod Aberystwyth mewn ardal lle mae troseddau ar eu lefel isaf yng ngorllewin Ewrop ac mae cynrychiolaeth o'r heddlu yn bresennol ar y campws, rydym yn annog ein holl fyfyrwyr yn gryf i yswirio eu heiddo personol. Bydd yswiriant canolog y Brifysgol yn darparu peth gofal dros eitemau personol eich mab/merch tra bo nhw'n eu ystafell, ond rydym yn argymhell eich bod yn ystyried ehangu'r lefel yma o yswiriant, neu'n chwilio am yswiriant ychwanegol.

Awgrymw'n bod myfyrwyr yn paratoi rhestr o'u holl eiddo ac amcanu gwerth prynu'r cwbl o'r newydd – mae hyn gan amlaf yn peri syndod. Gwnewch yn siwr bod yr yswiriant yn ddigonol i'r cyfanswm hwn. Bydd y rhan fwyaf o bolisiau cartref naill ai yn rhoi estyniad awtomatig neu'n darparu ffordd i ymestyn yr yswiriant i gynnwys eiddo eich mab neu ferch tra bydd oddi cartref.

Efallai y dylech hefyd ystyried yswirio yn erbyn damweiniau personol, yn enwedig os yw'ch mab neu ferch yn gwneud llawer o chwaraeon. Bydd gweithgaredd anturus, tebyg i ddringo, syrffio neu farcuta, yn cael eu heithrio o bolisiau damwain bersonol a dylid cael polisiau penodol ar eu cyfer.

Amgylchiadau arbennig

Sylweddolwn bod myfyrwyr o gefndir o bob math yn dod yma, ac y gall amgylchiadau teulu newid yn ystod y flwyddyn. Rydym yn awyddus iawn bod yr holl ffactorau a allai effeithio ar allu myfyrwr i astudio a pherfformio hyd eithaf ei allu/gallu yn cael eu hystyried cyn penderfynu ar y marciau terfynol. Mae gennych chi fel rhieni ran bwysig wrth annog eich mab neu ferch i ddweud wrth eu adran am amgylchiadau arbennig cyn i Fyrdau Arholi gyfarfod, fel y gellir rhoi'r ystyriaeth decaf posibl i'r amgylchiadau.

Cyflogadwyedd

Mae'r Gwasanaeth Cyngori ar Yrfaoedd yn anelu i ddarparu cefnogaeth i alluogi myfyrwyr a graddedigion i gyflawni eu uchelgais ac i gyrraedd eu potensial. Bydd y Gwasanaethau Gyrfaoedd yn rhoi cymorth i'ch mab neu'ch merch i lunio llwybr gyrfaoel ac i ddeall y camau hanfodol sy angen er mwyn cyrraedd y nod honno. Fe drefnwn ni i ystod eang o gyflogwyr, cyn-fyfyrwyr a sefydliadau ddod i'r campws i gynnig eu gwybodaeth arbenigol gan ddarparu i'n myfyrwyr weithdai, cyflwyniadau a datblygiadau yn y cwricwlwm. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu cymaint ag sy'n bosib o brofiadau cysylltiedig â gwaith ar gyfer ein myfyrwyr ac ar eu cefnogi i achub ar bob cyfle sy ar gael. Am wybodaeth bellach, gweler: www.aber.ac.uk/careers/

Cyfrinachedd

O ganlyniad i'r Ddeddf Diogelu Data, ni fydd staff y Brifysgol yn gallu darparu gwybodaeth am gynnydd neu gais am le fyfyrwyr, i berson arall, heb ganiatâd uniongyrchol y myfyrwr yna. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth i rieni a chefnogwyr.

Mwynhau bywyd fel myfyriwr

Prysur ond llawn mwynhad yw'r disgrifiad gorau o fywyd myfyrwyr yn Aberystwyth. Mae'n dref glos ac agos atoch, wedi ei leoli ar lannau Bae Aberteifi.

Nid oes yna dref prifysgol ym Mhrydain sy'n gallu cynnig yr un ysblander o ran golygfa. Oherwydd ei lleoliad, mae Aberystwyth yn mwynhau bywyd myfyriwr a chymdeithasol sydd â'i myfyrwyr wrth wraidd popeth, ac mae hyn yn aml yn wir am bywyd cymdeithasol y dref hefyd. Mae adnoddau'r campws yn wych o ran diwylliant a chwaraeon, ac mae Aberystwyth yn ganolfan ddi-guro i'r rhai sy'n mwynhau yfed a bwyta. Anelir y cwbl yn amlwg ac yn ddi-edifar at chwaeth a chyllid myfyrwyr.



Mae'r cysylltiad rhwng y Brifysgol a'r dref yn un hapus; mae'r ddwy gymdeithas yn dibynnu y nail ar y llall. Un o brif fanteision Aberystwyth yw fod popeth o fewn cyrraedd yn rhwydd ar droed. Mae'r darlithoedd, yr adnoddau chwaraeon, y llyfrgelloedd, y siopau a'r archfarchnadoedd, y sinema a'r gweithgareddau celfyddydol i gyd o fewn pellter cerdded, ac nid oes rhaid i fyfyrwyr wastraffu amser nac arian ar deithio. Ar ôl cyrraedd yma gall ef neu hi ganolbwyntio ar yr agweddau hynny sy'n bwysig ym mywyd myfyrwyr – gwaith, chwarae a gorffwys.



Chwaraeon a Cymdeithasau

Mae Undeb y Myfyrwyr yn gartref i dros 100 o gymdeithasau myfyrwyr o bob math, sy'n golygu bydd gan eich mab/merch y cyfle i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon, cymdeithasol a diwylliannol. Gall rhain amrywio o gymryd rhan mewn gynhyrchiad theatrig, bod yn rhan o gôr neu berfformiad gerddorol, i chwaraeon o bob math.

Llefydd gorau i ymweld â hwy

Mae Aberystwyth a'r cyffuniau'n boblogaidd iawn ymysg twristiaid, sy'n golygu bydd digon o lefydd i chi ymweld, pan byddwch chi'n galw heibio i weld eich mab/merch!

- **Y Graig Las** - Unwaith byddwch wedi cyrraedd y copa byddwch yn gallu gweld rhai o'r golygfeydd gorau o Aberystwyth.
- **Royal Pier** - Cartref nifer o lefydd gan gynnwys Yr Arcêd a'r clwb nos poblogaidd Pier Pressure. Hon oedd y pier cyntaf i agor yng Nghymru n'ôl ym 1865, ac yn wreiddiol roedd yn 242 metr.
- **Castell Aberystwyth** - Adeiladwyd yn dilyn y rhyfel cyntaf yng Nghymru yn 13 ganrif. Mae'r adfeilion ar agor i'r cyhoedd drwy'r flwyddyn
- **Traethau'r De a'r Gogledd** - Gall unrhyw un wario'r dydd yno'n cael picnic neu chwarae gemau. Ar draeth y de gallwch hefyd gael barbiw gyda ffrindiau, neu fynd ar ganw neu nofio'n y môr hyd yn oed.
- **Gwyllo'r Dolffiniaid, Cei Newydd** - Mae cychod yn mynd allan ar y dŵr am y dydd ble (os byddwch chi'n lwcus) gallwch weld nhw'n nofio a chwarae o gwmpas y cwch.
- **Canolfan Celfyddydau Aberystwyth** - Un o'r Canolfanau Gelfyddydau amlycaf Cymru mae'n cynnwys theatr sy'n dal 320, neuadd gyngerdd sy'n dal 900, a sinema 120 sedd. Mae yno hefyd stiwdio, galeriau, dwy gaffi, bar, siop grefftiau a siop lyfrau swyddogol y Brifysgol.



5 clwb chwaraeon mwyaf poblogaidd Aber

1. **Y Geltaidd** - cymdeithas chwaraeon i fyfyrwyr Cymraeg
2. **Chyngrhair DIGS** - cystadleuaeth chwaraeon i bob lefel o allu
3. **Ffrisbi Eithafol** - gemau ffrisbi ar gyfer pob lefel o allu
4. **Clwb Harriers** - athletau i bawb
5. **Timoedd Rygbi Undeb a'r Gyngrhair**
6. **Aber Snow** - clwb i'r rheini sy'n hoffi sgïo, eirafyrddio, neu sledio!



5 gymdeithas mwyaf poblogaidd Aber

1. **UMCA** - cymdeithas myfyrwyr Cymraeg Aber
2. **Nomadic Players** - cymdeithas theatr boblogaidd
3. **Cyfyngau Myfyrwyr Aber** - mae'n cyhoeddi papur newydd, gwasanaeth radio a theledu, a gwefan
4. **Tickled Pink** - yn codi arian ac ymwybyddiaeth o Gofal Cancr y Fron a CoppaFeel
5. **Cymdeithas Cwrw**

SEMESTER 1				SEMESTER 2									
MEDI	HYDREF	TACHWEDD	RHAGFYR	GWYLIAU	IONAWR	ARHOLIADAU	CHWFROR	MAWRTH	GWYLIAU	EBRILL	MAI	ARHOLIADAU	MEHEFIN
Tymor 1 (Tymor yr Hydref)					Tymor 2 (Tymor y Gwanwyn)					Tymor 3 (Tymor yr Haf)			

Llun 14 Mai 2018 – Sadwrn 02 Mehefin 2018

Mae gan y Bryfysgol gyrsgiau o bob math ar gyfer pobl o bob oed. Mae nifer o'n myfyrwyr yn fyfyrwyr hŷn (dros 21) sydd wedi penderfynu gwneud cwrs addysg uwch am eu bod yn credu y bydd ein cyrsiau o gymorth iddyn nhw gyda'u gyrfa neu am fod ganddyn nhw uchelgais academaidd personol. Mae pob cyfle a gynigir i'ch mab neu'ch merch hefyd ar gael i chi, ac mae croeso mawr i chi holi am fanylion. Cysylltwch â'r Swyddfa Derby i holi am ein llyfryn i Fyfirwyr Hŷn.

Adeilad Cledwyn
Campws Penglais
Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth, SY23 3DD
Ffôn: 01970 622021
E-bost: derbyn-israddedig@aber.ac.uk

Y Sgubor
Fferm Penglais
Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth, SY23 3FH
Ffôn: 01970 622900
Linell gymorth 24awr: 01970 622900
E-bost: ilet@aber.ac.uk

Gobeithio y gwelwch ein bod yn sefydliad effeithiol a chyfeillgar. Ond, os bydd gennych gwynion am unrhyw agwedd ar y drefn denu a derbyn myfyrwyr, cysylltwch â'r: Dirprwy Is-Ganghellor, Swyddfa'r Is-Ganghellor, y Ganolfan Ddelweddu, Campws Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BF. Bydd y Dirprwy Is-Ganghellor yn gwneud pob ymdrech i ddelio â chwynion o fewn 5 diwrnod gwaith. Os nad yw hyn yn bosibl, fe gysylltw'n â chi i egluro beth yw'r trafferthion, a phryd y byddwn yn gallu rhoi ateb llawn i chi.

Mae'r wybodaeth yn y llyfr yn hwn yn gywir ar adeg mynd i'r wasg (Awst 2016) ac fe'i bwriedir i fod yn ganllaw, ond mae'n bosib bydd peth ohono'n newid. Ewch arlein am y wybodaeth ddiweddaraf, os gwelwch yn dda.

www.aber.ac.uk



- Dewis hyblyg i fyfyrwyr
- Cefnogaeth gwych ar gyfer dysgu myfyrwyr, gyda dros 140 mlynedd o ragoriaeth mewn dysgu ac ymchwil
- Gwarant o lety yn y flwyddyn gyntaf
- Pecyn gwych o fwrsariaethau, ysgoloriaethau a gwobrau
- Mynediad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru
- Y gorau yng Nghymru a 4^{ydd} prifysgol orau yn y DU am foddhad myfyrwyr, Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2016